LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

CWIS PENCAMPWYR
Y PENCAMPWYR



GWEITHDAI RHITHIOL



Nifer o ddysgwyr:
Dros 1,000

Thema:
Cymreictod

Roedd dysgwyr o bob cwr o'r wlad wedi cymryd rhan mewn gweithdai rhithiol i ddathlu Cymreictod. Gwahoddodd e-sgol ysgolion ar draws Cymru i ymuno â'r gweithdai, mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell, i ddysgu mwy am:

- **Llyfr Gwyn Rhydderch (Y Mabinogi)**
- **Map Cambriae Typus 1573**
- **Beibl William Morgan 1588**
- **Paentiad Ashely Williams gan Owain Fôn Williams**
- **Clip o seremoni agoriadol Cwpan Rygbi'r Byd 1999**
- **Llawysgrif Hen Wlad Fy Nhadau**

Roedd cwis digidol cyffrous i atgoffa'r dysgwyr am gynnwys y cyflwyniad ym mhob gweithdy er mwyn ychwanegu elfen hwyliog a chystadleuol.

e-sgol


Mae e-sgol yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo ysgolion i anelu at ecwiti o ran y ddarpariaeth a'r profiadau a gynigir i'w dysgwyr.
Gwnawn hyn gan:

- ffurfio partneriaethau cydweithredol rhwng ysgolion uwchradd er mwyn ehangu darpariaeth ôl-14 ac ôl-16
- gynnig datblygiad proffesiynol i staff ysgolion uwchradd wrth iddynt gyflwyno eu cyrsiau ar-lein
- gynorthwyo ysgolion cynradd i gynnig cyfleoedd a phrofiadau amrywiol i'w dysgwyr
- gefnogi addysg Gymraeg yn genedlaethol.

PENCAMPWYR

TAITH I LYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Roedd elfen gystadleuol i'r cwisiau rhithiol - cyfle i ennill taith am ddim i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Cynhaliwyd dau weithdy drwy gyfrwng y Gymraeg a dau drwy'r Saesneg, ac fe gafodd yr enillwyr eu gwahodd i gystadlu mewn cwis arbennig: **Pencampwyr y Pencampwyr!**





YR ENILLWYR

Ysgol Mynydd-y-Garreg ac Ysgol Treferthyr oedd yn fuddugol yn y cwisiau iaith Gymraeg.

Ysgol Tycroes ac Ysgol Pentip oedd yn fuddugol yn y cwisiau Saesneg.

Cafodd dosbarthiadau'r ysgolion eu gwahodd i'r Llyfrgell i gystadlu yn y cwis.

GWRANDO A CHOFIO!

Cafodd y dysgwyr deithiau o amgylch yr adeilad yn y bore, gan geisio gwrando'n astud ar ffeithiau am y Llyfrgell. Roedd y ffeithiau hyn yn rhan o gwestiynau cwis Pencampwyr y Pencampwyr yn y prynhawn.



Ysgol Treferthyr

AMSER Y CWIS!

Cynhaliwyd y cwisiau yn y Drwm, gyda staff e-sgol yn eu harwain gan ddefnyddio'r ap addysgiadol Kahoot i greu elfen gystadleuol. Roedd y awyrgylch yn drydannol - yn llawn cynnwrf, gweiddi a dathlu wrth i'r dysgwyr gefnogi'u cyfoedion yn frwd.

